Cymorth Cristnogol

Dyddiadau Wythnos Cymorth Cristnogol eleni fydd Mai 14–20. Mae'r angen yn amlwg yn fawr ym mhob ystyr. Mae gwir angen yr arian a gesglir yn ystod yr Wythnos i gefnogi gwaith yr elusen hon o estyn cymorth i bobl sy'n dioddef yn ein byd. Ac yn lleol, mae angen pobl i helpu gyda'r gwaith o gasglu o ddrws i ddrws os yw'r ymdrechion lleol i lwyddo.

Nodwch y dyddiadau os gwelwch yn dda.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER
Dydd Sul, Mawrth 26: Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Mr Thomas A Williams.

CAPEL COCH A NANT PADARN
Dydd Sul, Mawrth 26: Cynhelir Oedfa Deulu am 10.30 o'r gloch.

REHOBOTH
Dydd Sul, Mawrth 26: Ni fydd oedfa.

Y mis nesaf - Deiniolen

Mawrth 19
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Mawrth 26
5.00 p.m. - Mr Thomas A Williams

Ebrill 2
3.30 p.m. - Y Gweinidog

Ebrill 9 (Sul y Blodau)
5.00 p.m. - Y Parchg Cath Williams

BETHLEHEM
Dydd Iau, Mawrth 23: Cynhelir 'Bwrlwm' rhwng 2.15 a 3.45 o'r gloch.
Dydd Sul, Mawrth 26: Yr Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch. Gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CARMEL
Dydd Llun, Mawrth 21: Cynhelir y Dosbarth Gwau am 2.00 o'r gloch.
Nos Wener, Mawrth 24: Dwylo Prysur am 6.30 o'r gloch.
Dydd Sul, Mawrth 26: Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch, a gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

CYNLLUN EFE
Dydd Llun, Mawrth 20: Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.
Dydd Llun, Mawrth 20: Pwyllgor yr Ymddiriedolwyr yng nghapel Caeathro am 4.00 o'r gloch.

CynllunEFE
Efengyl i Fro'r Eco

Y mis nesaf - Llanberis

Mawrth 19
10.00 a.m. - Oedfa yng ngofal Gareth Jones a Colin Jones
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa yn ngofal Parti Bytholwyrdd

Mawrth 26
10.30 a.m. - Oedfa Deulu

Ebrill 2
10.00 a.m. - Mr Norman Closs Parry
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Geraint Roberts

Ebrill 9 (Sul y Blodau)
10.00 a.m. - Y Gweinidog
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las
Rhif 721: Dydd Sul, 19 Mawrth, 2017

Magwyrydd

Cyfres radio hynod o ddifyr ydi 'Hanes yr Iaith mewn 50 Gair' a gyflwynir gan Ifor ap Glyn. Dysgwn lawer am ystyr a tharddiad geiriau wrth wrando ar Ifor yn eu trafod yn ddeheuig. Chlywais i mo bob rhaglen a ddarlledwyd hyd yma, ond rwy'n tybio nad yw Ifor wedi rhoi sylw i'r gair 'magwyrydd' a geir yn emyn mawr Moelwyn Hughes a ganwyd lawer gwaith gan y mwyafrif ohonom.

Os cofiwch, mae tri phennill cyntaf yr emyn yn agor gyda chwestiwn: 'Pwy a'm dwg i'r ddinas gadarn?' Daw'r ateb pendant yn y pennill olaf:

'Iesu a'm dwg i'r ddinas gadarn,
Derfydd crwydro'r anial maith,
Canu wnaf y gainc anorffen
Am fy nwyn i ben fy nhaith;
Iachawdwriaeth
Ydyw ei magwyrydd hi.'

Wedi'r datganiad clir mai Iesu Grist yw'r un a ddaw â ni i'r ddinas gadarn, daw'r emyn i'r uchafbwynt a ganwyd gydag arddeliad mawr gan fwy nag un gynulleidfa dros y blynyddoedd:

'Iachawdwriaeth
Ydyw ei magwyrydd hi.'

Ond beth yw ystyr 'magwyrydd'? Ai fi ydi'r unig un sydd wedi canu'r pennill hwn heb sylweddoli beth yn union a ddywed y llinell olaf? Yn ôl *Geiriadur y Brifysgol*, lluosog 'magwyr' yw 'magwyrydd'; ond a bod yn onest, 'doedd gweld hynny o fawr help i mi gan fod 'magwyr' hefyd yn air dieithr. Mae'r *Geiriadur* yn cynnig mwy nag un ystyr i'r gair hwnnw. Un ystyr yw 'colofn sgwâr o wair', ond mae'n amlwg nad dyna'r ystyr yn yr emyn. Ystyr arall y gair ydi 'mur' neu 'wal'. Gall y wal (medd y *Geiriadur*) fod yn 'adfail' neu 'furddun'. Ond gall hefyd fod yn 'amddiffynfa' a 'gwrthglawdd'; a dyna'n sicr ei ystyr yn yr emyn hwn am 'y ddinas gadarn'.

Sôn am hyfrydwch y nefoedd a wna'r emyn, a'i neges fawr yw mai Iesu Grist yw'r ffordd i gartref tragwyddol y Cristion. Yr iachawdwriaeth, sef yr achubiaeth a sicrhaodd Iesu Grist i'w bobl trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad, yw diogelwch y Cristion. Mae gwaith achubol Iesu Grist yn wrthglawdd sy'n ei amddiffyn rhag popeth a fyddai fel arall yn ei rwystro rhag profi'r bywyd tragwyddol.

Mae'r emyn yn nodi rhai o fendithion y nefoedd: 'lle mae Duw'n arlwyo gwledd'; 'caf rodio'i phalmant aur'; 'lle mae pawb yn llon eu cân' a 'lle caf nerth i fythol fyw'. Sail ein gobaith am hyn oll yw'r hyn a wnaeth Iesu; ei farwolaeth a'i atgyfodiad yw muriau amddiffynnol y ddinas gadarn y canwn amdani. Addewid yr Efengyl yw bod pob Cristion yn gwbl ddiogel am fod maddeuant a chymod wedi eu sicrhau trwy aberth Crist. A'r iachawdwriaeth hon a fydd yn amddiffynfeydd cadarn i bawb sy'n credu yn yr Arglwydd Iesu.

Iachawdwriaeth
Ydyw ei *gwrthgloddiau* hi.

Y llun: Magwyrydd Rhufeinig Caerwent

Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris
Bethlehem (A), Talybont
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Balm o Salm

BEIBL BYW

'O Dduw, gwareda fi trwy dy enw, a thrwy dy nerth cyf-iawnha fi. O Dduw, gwrando fy ngweddi, rho glust i eiriau fy ngenau. Oherwydd cododd gwŷr trahaus yn fy erbyn, ac y mae gwŷr didostur yn ceisio fy mywyd; nid ydynt yn meddwl am Dduw ... Aberthaf yn ewyllysgar i ti; clodforaf dy enw, O ARGLWYDD, oherwydd da yw; oherwydd gwaredodd fi o bob cyfyngder, a gwneud imi orfoleddu dros fy ngelynion'
(Salm 54:1–3, 6–7).

Heddiw

Colin Jones a Gareth Jones sy'n arwain yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch a bydd yr oedfa am 5.00 o'r gloch yng ngofal aelodau Parti Bytholwyrdd. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog.

Cynhelir yr Ysgol Sul yn Llanllechid am 10.30 o'r gloch, a yna gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan Miss Nerys Jackson, Caernarfon.

Bydd yr Ysgol Sul yn Nhalybont am 10.00 o'r gloch, a gwasanaethir yn yr oedfa am 2.00 o'r gloch gan Mr Dafydd Iwan, Caeathro.

Nid oes oedfa yn Rehoboth heddiw.

Cofion

Anfonwn ein cofion at bawb sydd heb fod yn dda, ac yn arbennig at bawb sy'n methu â dod i'r oedfa ar hyn o bryd.

Agor y Llyfr

Roedd criw Agor y Llyfr yn Ysgol Gwaun Gynfi fore Gwener, Mawrth 17, yn cyflwyno y tro hwn stori Josua a Chwymp Muriau Jericho. Cofiwch y byddwn yn falch o glywed gennych os medrwch gymryd rhan gyda ni. Holwch Mrs Helen Sutherland neu Mrs Eirlys Hughes, Porth y Gogledd i gael gwybod am y gwaith.

'Y Ffordd'

Cynhaliwyd cyfarfod diweddaraf 'Y Ffordd' yn festri Carmel nos Fercher, Mawrth 15. Gobeithio bod pawb sy'n dod i'r cyfarfodydd hyn yn cael budd a bendith o drafod gyda'n gilydd. Mae croeso i eraill ymuno â ni unrhyw bryd wrth gwrs. Bydd y cyfarfod nesaf am 7.00 o'r gloch nos Fercher, Ebrill 5.

Trip Dwylo Prysur

Bydd criw Dwylo Prysur, Capel Carmel yn ymweld â Chlynnog a Phwllheli y mis nesaf, ac mae Mrs Helen Williams wrthi'n brysur yn cwblhau'r trefniadau ar hyn o bryd.

CIC

Cynhaliwyd CIC yn Capel Coch nos Wener, a diolch yn arbennig i Dafydd a Gwenno am eu help. Yn y cyfnod hwn cyn Y Pasg cawn gyfle i roi sylw i rai o ddigwyddiadau wythnos Fawr y Pasg trwy ddilyn yr hanes o un dydd i'r llall. Cafwyd hanes Iesu yn glanhau'r deml y noson o'r blaen. Bydd y cyfarfod nesaf nos Wener, Mawrth 31.

Llanw

Bydd Gŵyl Llanw yn cael ei chynnal yng Nghricieth unwaith eto eleni.

Dyma'r trydydd tro iddi gael ei chynnal yno, a'r dyddiadau eleni yw Ebrill 17 hyd Ebrill 20. Bydd yn cychwyn felly ddydd Llun y Pasg.

Dros y deng mlynedd diwethaf, mae Llanw wedi datblygu'n ŵyl boblogaidd sy'n denu cannoedd o Gristnogion o bob oed o bob rhan o'r wlad. Bydd croeso cynnes i bawb a fydd yn mynd yno.

Dros dri bore ceir anerchiadau gan y Parchg John Treharne, Llwynhendy. Bydd gwahanol seminarau yn ystod y prynhawn. A cheir oedfaon mawl bob gyda'r nos, ac amrywiaeth o bobl yn eu harwain ac yn annerch ynddyn nhw.

Bydd modd aros yng Nghanolfan Wyliau Hafan y Môr ym Mhwllheli yn ystod yr wythnos, ac mae angen rchebu lle yno erbyn Chwefror 27. Ceir manylion ar wefan Llanw, www.llanw.org

Nid oes rhaid aros yno wrth gwrs. Mae llawer iawn yn dewis mynd i Llanw am y dydd neu i ambell un o'r cyfarfodydd. Mae hynny yn bosibl wrth gwrs i ni sy'n byw o fewn cyrraedd i Gricieth.

Mae'n sicr yn werth mynd i Llanw er mwyn profi cymdeithas Gristnogol a chael ymuno yn yr addoliad.

Tearfund

Mae elusen Gristnogol Tearfund newydd gyhoeddi ei Apêl Argyfwng Dwyrain Affrica 2017 er mwyn estyn cymorth i bobl sy'n wynebu newyn dychrynllyd. Mae hyd at **16 miliwn o bobl yn dioddef ac ar fin llwgu.** Gellircyfrannu at yr Apêl ar-lein trwy

www.tearfund.org/savelives

Taflen

Mae eglwys Bethlehem Talybont wedi cynllunio taflen liwgar sy'n cyflwyno'r eglwys a'i gwaith. Mae wedi ei hanfon i'r argraffwyr erbyn hyn, ac unwaith y bydd yn barod bwriedir ei dosbarthu i gartrefi'r pentref.

Cyfarfod Chwarter

Fore Mawrth yr wythnos hon, Mawrth 21, cynhelir Pwyllgor Gwaith Cyfarfod Chwarter yr Annibynwyr ym Methlehem, Talybont. Mae'r eglwys yn falch o allu croesawu'r Pwyllgor er mwyn hwyluso gwaith y Cyfundeb.

Cynllun Efe

Bydd Ymddiriedolwyr Efe yn cyfarfod yng nghapel Caeathro am 4.00 o'r gloch bnawn yfory, Mawrth 20.

Yn ystod Wythnos y Pasg (yr wythnos cyn Gŵyl LLANW yng Nghricieth), cynhelir cynhadledd Gristnogol arall yma yng Ngogledd Cymru. Yng ngwersyll Pontins ym Mhrestatyn y cynhelir Word Alive, ac fel mae'r enw yn awgrymu, gŵyl Saesneg ei hiaith yw hon. Ond rwy'n sôn amdani am fod Word Alive ers sawl blwyddyn yn gwneud casgliad yn un o'u hoedfaon at waith Cristnogol lleol. Ac eleni, mae'r trefnwyr wedi addo y bydd Cynllun Efe yn derbyn peth o'r arian hwnnw. Mae hynny wrth gwrs yn newydd da i ni. Mae'n dda gweld fod y trefnwyr yn awyddus i gefnogi ein gwaith.